Rhif: **WG26555**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Rheoliadau mewn perthynas â Rhan 11 o'r Ddeddf – Rheoliadau drafft Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015

Dyddiad cyhoeddi: **17 Medi 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **15 Hydref 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar Reoliadau drafft Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i'r cyfeiriad isod:

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan www.wales.gov.uk/consultations/?lang=cy a gallwch ei dychwelyd atom trwy'r e-bost i: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 20 82 6498

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Yr ymgynghoriad**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar Reoliadau drafft Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n flaenorol yn 2014 ynghylch Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) 2015.

**Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r canolbwynt bellach yn troi at weithredu'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu trwy broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol ac fe'u cyflwynir yn awr i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

**Y dystiolaeth ar gyfer newid**

Nodwyd y dystiolaeth ar gyfer newid yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu* ac yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), a nododd egwyddorion allweddol y Bil.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion, ein Hadolygiad o Ddiogelu a chyngor a thrafodaethau'r Grŵp Arweiniad Cenedlaethol, y Fforwm Partneriaeth a Phanel y Dinasyddion. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy'r broses graffu genedlaethol ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, a *Galluogi Cymru,* a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol drafft a oedd wedi'u cwmpasu gan yr ymgynghoriad ar gyfres un ac a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn.

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy

**Y cynigion**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio eich barn ar un agwedd benodol ar **Reoliadau drafft Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015**. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n flaenorol yn 2014 ar Reoliadau Gofal a

Chymorth (Methiant Busnes) 2015. Cafodd y rheoliadau hyn eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan arfer pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal 2014.

Fe ymgynghoron ni hefyd ynghylch cod ymarfer drafft mewn perthynas â methiant busnes. Roedd y cod drafft hwn yn syml yn nodi ein ffordd o feddwl hyd yma. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i rannu eich barn i oleuo datblygiad yr arweiniad hwn. Rydym wedi cyflwyno Bil ar 'Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru' a bydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at drosolwg o'r farchnad. Ni fydd y dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yng Nghymru yn achos methiant busnes darparwr gwasanaethau gofal yn dod i rym tan fis Ebrill 2016. Bydd y cod hwn yn cael ei gwblhau wrth inni ddatblygu ein cyfundrefn ar gyfer trosolwg o'r farchnad yng Nghymru fel rhan o Reoleiddio ac Arolygu gofal a chymorth yng Nghymru dan y Ddeddf newydd.

Ceir disgrifiad o Reoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Lleoliadau Trawsffiniol) (Dyletswyddau Methiant Busnes Awdurdodau Lleol yr Alban) 2014 ar waelod y ddogfen hon.

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015**

**Dyma'r Rheoliadau yr ymgynghorir arnynt yn yr ymarfer hwn**. Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru gan arfer y pwerau a roddir gan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan berson cofrestredig yng Nghymru a oedd yn methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn dilyn methiant busnes.

NID yw'r ddyletswydd hon yn gymwys os oedd anghenion yr oedolyn am ofal a chymorth, yn union cyn i'r person cofrestredig fethu parhau i redeg neu reoli'r sefydliad neu asiantaeth, yn cael eu diwallu (gweler a.190 o'r Ddeddf):

- dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr
- dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn yr Alban
- dan drefniadau a wnaed gan ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

  Y rheswm yw yr ymdrinnir â hyn yn Neddf Gofal 2014.

Lle mae darparwr gofal cofrestredig yng Nghymru'n methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn dilyn methiant busnes, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle darperir y gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion:

(a) yr oedd eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr;

(b) yr oedd eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn yr Alban;

(c) yr oedd eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon; ac

(d) yr oedd eu hanghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Deddf Gofal 2014 yn darparu ar gyfer y dyletswyddau dros dro y cyfeirir atynt yn (a), (b) ac (c), ac felly caiff y dyletswyddau hyn eu sbarduno pan fo'r darparwr gofal yn methu parhau i redeg y sefydliad yn dilyn methiant busnes, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) 2015.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r ddyletswydd y cyfeirir ati yn (d), ac felly ni fydd y ddyletswydd hon ond yn codi lle mae'r darparwr gofal yn methu parhau i redeg y sefydliad yn dilyn methiant busnes, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015.

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015 yn cynnwys **gorchmynion rhyddhau o ddyled** fel rhan o'r diffiniadau o fethiant busnes. Mae'r rhain yn gymwys mewn perthynas â lleoliadau a wneir gan awdurdodau yng Nghymru yn unig. Os yw darparwr gofal yng Nghymru'n methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn dilyn gwneud gorchymyn rhyddhau o ddyled, ni fydd yr awdurdod lleol yng Nghymru yr oedd gofal yn cael ei ddarparu ynddo dan orfodaeth i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer defnyddwyr yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr. Bydd yr awdurdod lleol yng Nghymru yr oedd gofal yn cael ei ddarparu ynddo dan orfodaeth i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer defnyddwyr yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu dan drefniadau a wnaed gan awdurdod arall yng Nghymru.

O ystyried ein bod eisoes wedi ymgynghori ar y rheoliadau Methiant Busnes fel y maent yn gymwys i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfyngedig i'r mater technegol – cynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled o fewn y diffiniad o fethiant busnes. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich sylwadau a'ch barn am:

- gynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled o fewn y diffiniad o fethiant busnes fel y mae'n gymwys i leoliadau a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ceir ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad isod.

## Rheoliadau Cysylltiedig

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) 2015**

Cafodd y rheoliadau hyn eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal 2014.

Mae Deddf Gofal 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan ddarparwr gofal cofrestredig a oedd yn methu parhau i gyflawni'r gweithgaredd a reoleiddir yn ardal yr awdurdod yn dilyn methiant busnes.

Mae'r Ddeddf Gofal hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan berson cofrestredig yng Nghymru dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr, awdurdod lleol yn yr Alban neu ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r person cofrestredig yn methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn ardal yr awdurdod yn dilyn methiant busnes.

Dan y Ddeddf, mae dyletswydd ar ymddiriedolaeth yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan berson cofrestredig yng Ngogledd Iwerddon dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr, awdurdod lleol yn yr Alban neu awdurdod lleol yng Nghymru, lle mae'r person cofrestredig yn methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn dilyn methiant busnes.

Caiff y dyletswyddau hyn eu sbarduno gan anallu'r darparwr gofal i redeg y gweithgaredd yn dilyn methiant busnes, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) 2015.

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Lleoliadau Trawsffiniol) (Dyletswyddau Methiant Busnes Awdurdodau Lleol yr Alban) 2014**

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Gofal 2014.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yn yr Alban i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion yr oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan ddarparwr gofal yn yr Alban dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr, awdurdod lleol yng Nghymru, neu ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r darparwr yn methu parhau i redeg y sefydliad neu'r asiantaeth yn dilyn methiant busnes.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad :

1. **Rydym yn gwahodd eich barn ynghylch cynnwys gorchmynion rhyddhau o ddyled o fewn y diffiniad o fethiant busnes**

2. **Rydym wedi gofyn cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod inni amdanynt**

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐